

SESIWN 2: HAWLIAU'R PLENTYN

Oedran: 8–11 oed Amser: 1 awr

Amlinelliad Bydd y dysgwyr yn darllen detholiad o erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac yn trafod pa dair erthygl yw'r pwysicaf, yn eu barn nhw. Byddant yn ysgrifennu brawddeg i gyfiawnhau eu dewis o erthyglau ac yn defnyddio iaith perswadio i annog eraill i dderbyn eu safbwynt nhw.	
Amcanion dysgu <ul style="list-style-type: none">Datblygu sgiliau defnyddio iaith perswadio, ar lafar ac yn ysgrifenedig.Datblygu dealltwriaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chofio o leiaf dair erthygl o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.	Canlyniadau dysgu <ul style="list-style-type: none">Bydd y dysgwyr yn rhoi erthyglau a ddetholwyd o blith Hawliau'r Plentyn gan y Cenhedloedd Unedig mewn categorïau megis iechyd, hapusrwydd neu ddiogelwch ac yna'n eu gosod yn ôl trefn eu pwysigrwydd.Bydd y dysgwyr yn defnyddio iaith briodol i berswadio eraill i gytuno â'u dewis o'r tair erthygl bwysicaf.Bydd y dysgwyr yn llunio posteri gan ddefnyddio iaith berswadiol i gefnogi eu dewis o'r tair erthygl bwysicaf.
Cwestiynau allweddol <ul style="list-style-type: none">Beth yw nod yr erthygl hon?Pa dair erthygl yw'r pwysicaf, yn fy marn i? Pam?Sut alla i wneud i'r frawddeg hon swnio'n fwy perswadiol?Pa erthyglau oedd y rhai mwyaf poblogaidd gan y dosbarth? Pam?Ydy pob plentyn yn cael yr hawliau hyn?	Adnoddau <ul style="list-style-type: none"><i>Sioe sleidiau Hawliau Plant</i>: sleidiau 5 a 6.<i>Detholiad o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn</i> (i'r dysgwyr eu dangos).<i>Detholiad o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn</i> (wedi'u torri'n ddarnau unigol o bapur i'r dysgwyr eu trefnu, fesul pâr). Adodd opsiynol <ul style="list-style-type: none"><i>'For Every Child'</i> gan amrywiol awduron i UNICEF, cyhoeddwyd gan Red Fox.
Cysylltiadau â'r cwricwlwm	
Cymru Cymraeg: Llafaredd Sgiliau: Cyfathrebu yn glir ac yn hyderus, mynegi barn, addasu'r iaith yn ôl y gynulleidfa a'r pwrpas, gan ddefnyddio ystumiau, tŷn a chywair addas er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawr. Ysgrifennu Ystod: Ysgrifennu ar gyfer ystod o ddibenion. Fframwaith Llythrennedd: Llafaredd: Cydweithio a Thrafod. Ysgrifennu: Trefnu syniadau a gwybodaeth. Ysgrifennu'n fanwl gywir.	

Amlinelliad o'r Gweithgaredd

Cyflwyniad (15 mun)

Cyflwyno Hawliau'r Plentyn

- Os yw'n bosibl, darllenwch y llyfr *For Every Child*, a ysgrifennwyd gan amrywiol awduron ar gyfer UNICEF. Mae'r gyfrol hon, sydd wedi'i darlunio'n hardd, yn cynnwys yr 14 erthygl sy'n cael eu hystyried fel y rhai mwyaf perthnasol i blant mewn iaith syml. Trafodwch y prif bwynt a welir ar bob tudalen. Os na allwch wneud hyn, dechreuwch y sesiwn gyda'r pwynt bwled nesaf.
- Soniwch wrth y dysgwyr am ddeddf ryngwladol o'r enw 'Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn'. Fe'i hysgrifennwyd yn 1989 a daeth i rym yn 1990. Cytunodd pob gwlad yn y byd, ac eithrio'r Unol Daleithiau a Somalia, i gadw at y ddeddf. Mae'r gwledydd hyn yn ceisio gwneud i'r ddeddf weithio. Mae'r hawliau plant yn cynnwys yr hyn sy'n cael ei ganiatáu i blant ei gael neu ei wneud, a'r hyn mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am blant ei wneud er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel.
- Gofynnwch am 12 o wirfoddolwyr o'r dosbarth, a rhowch gerdyn i bob un ohonyn nhw sy'n cynnwys un o'r erthyglau ar y daflen waith 'Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn'. Eglurwch fod 54 o erthyglau yn y ddeddf gyflawn, felly detholiad yn unig yw'r rhain.
- Gofynnwch i bobl un o'r gwirfoddolwyr sefyll a darllen yr erthygl ar ei gerdyn. Trafodwch unrhyw bwyntiau nad yw'r dysgwyr yn eu deall.
- Anogwch y dysgwyr i ddechrau meddwl yn ddyfnach am bob erthygl drwy ofyn iddyn nhw beth mae'r erthygl honno'n ceisio'i sicrhau: iechyd, diogelwch neu hapusrwydd plant. Trefnwch yr erthyglau yn ôl y categorïau neu'r 'syniadau allweddol' hyn drwy ofyn i'r gwirfoddolwyr fynd i flaen y dosbarth a sefyll gydag eraill sydd ag erthyglau yn yr un categori.

Gweithgaredd 2.1 (10 mun)

Blaenoriaethu Hawliau

- Rhowch ddarnau o bapur yn dangos pob un o'r 12 erthygl a ddetholwyd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'r dysgwyr, fesul pâr.
- Gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd i roi'r erthyglau ar ffurf ysgol, gan ddangos y tair erthygl bwysicaf, yn eu barn hwy, ar ben yr ysgol. Gofynnwch iddyn nhw feddwl yn ofalus pam maen nhw'n credu bod y tair erthygl hyn yn bwysicach na'r lleill. Efallai yr hoffech gyfeirio at sleid 5, sy'n rhestru'r 12 erthygl a ddetholwyd.

Gwahaniaethu

Haws: Gweithiwch fel grŵp mwy, gyda chymorth oedolyn, i drafod unrhyw eiriau dieithr yn yr erthyglau wrth iddyn nhw gael eu darllen allan.

Anoddach: Rhowch gopi i'r dysgwyr o'r set gyflawn o 54 erthygl. Ar gael yma:

http://fis.ceredigion.gov.uk/wp-content/uploads/2012/10/CCUHP_Professional_Poster.pdf

Gofynnwch iddyn nhw eu darllen yn ofalus er mwyn gweld a oes yna unrhyw erthyglau eraill y byddent yn eu hystyried fel y tair (neu'r deuddeg) erthygl bwysicaf.

Gweithgaredd 2.2 (25 mun)

Defnyddio iaith sy'n perswadio

- Eglurwch i'r dysgwyr y byddan nhw'n gwneud posteri i wneud eraill yn ymwybodol o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yna, dangoswch fod yr erthyglau y mae'r dosbarth wedi bod yn eu darllen yn datgan pob hawl gan ddefnyddio'r ail berson, sef 'ti'. Maen nhw wedi'u hysgrifennu mewn ffordd gadarn, glir, sy'n gorchymyn.
- Gofynnwch i'r dysgwyr sut allen nhw wneud i'r hawliau swnio'n bwysicach. Arweiniwch eu meddyliau tuag at yr awgrym y gallen nhw wneud i'w tri hawl swnio'n fwy pwysig drwy eu hysgrifennu yn y person cyntaf (gan ddefnyddio 'rydw i' ac 'rydyn ni'). Gallen nhw hefyd ddefnyddio geiriau sy'n perswadio i gyflwyno pob erthygl. Cyfeiriwch y dysgwyr at eu 'banc geiriau' o Sesiwn 1 a dangoswch sleid 6.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pwy fyddai eu cynulleidfa darged at gyfer eu poster a sicrhau bod eu dewis o iaith yn addas. (*Gallai'r gynulleidfa darged gynnwys eraill yn y dosbarth, yn y grŵp blwyddyn neu adran o'r ysgol, neu gallech ddewis cynulleidfa ehangach megis yr ysgol gyfan, athrawon neu rieni.*)
- Fesul pâr, gofynnwch i'r dysgwyr lunio poster yn dangos eu tri hawl pwysicaf wedi'u hysgrifennu mewn brawddegau sy'n perswadio, â darlun ar gyfer pob un ohonyn nhw.
- Gofynnwch i'r dysgwyr brawfddarllen posteri ei gilydd er mwyn canfod gwallau sillafu ac atalnodi a gwerthuso'r posteri am iaith a chyflwyniad effeithiol.

Gwahaniaethu

Haws: Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis un o'u tri hawl pwysicaf a'i ysgrifennu mewn brawddeg i'r rhoi ar boster gyda darlun.

Anoddach: Rhowch her i'r dysgwyr feddwl am eiriau cyntaf brawddeg sy'n perswadio, gan ddefnyddio'r person cyntaf.

Sesiwn llawn (10 mun)

- Gofynnwch i'r dysgwyr ychwanegu unrhyw enghreifftiau newydd maen nhw wedi'u defnyddio o iaith perswâd ar ddechrau brawddegau i 'fanc geiriau' y dosbarth i'w defnyddio'n ddiweddarach.
- Arweiniwch drafodaeth dosbarth lle mae pob pâr yn rhannu eu tair erthygl bwysicaf a'u rhesymau dros eu dewis. Pa erthyglau oedd y rhai mwyaf poblogaidd? Pam? Ydy'r dysgwyr yn meddwl bod pob plentyn yn cael yr hawliau hyn?

Syniadau pellach

- Estynnwch ddealltwriaeth y dysgwyr o angen ac eisiau (a gyflwynwyd yn Sesiwn 1) drwy ofyn iddyn nhw weithio mewn grwpiau bach i drefnu'r 12 erthygl a ddewiswyd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (gweler y daflen isod) yn ddau gylch mawr sydd wedi'u labelu: 'Angen' ac 'Eisiau'. Arweiniwch drafodaeth ddosbarth ynghylch pam y dewisodd pob grŵp roi pob hawl mewn cylch penodol.
- Gofynnwch i'r dysgwyr pwy, yn eu barn nhw, ddylai fod yn gyfrifol am sicrhau bod yr hawliau hyn yn cael eu diwallu drwy ofyn iddyn nhw drefnu pob un o'r 12 erthygl a ddewiswyd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (gweler y daflen isod) dan benawdau megis y llywodraeth, cyfreithwyr, athrawon, meddygon, rhieni/gofalwyr a'r plant eu hunain. Arweiniwch drafodaeth dosbarth sy'n trafod pam mae'r dysgwyr wedi rhoi'r cyfrifoldeb am bob hawl mewn ffordd benodol. *Sylwer y gallai fod angen bod yn sensitif i sefyllfaedd unigol aelodau o'ch dosbarth ar gyfer gweithgaredd hwn.*

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn eu defnyddio, rhaid i roi credyd i'r ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac i Oxfam. Nid oes caniatâd i ddefnyddio'r delweddau a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol neu'r tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn ymwneud â'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith project.

**Detholiad o erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar
Hawliau'r Plentyn**

- Torrwch yn ddau gerdyn i'r dysgwyr eu dal.

**Erthygl 3: Dylai oedolion
wneud yr hyn sydd orau i ti.**

**Erthygl 6: Mae gen ti hawl i
fyw.**

**Detholiad o erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar
Hawliau'r Plentyn**

- Torrwch yn ddau gerdyn i'r dysgwyr eu dal.

**Erthygl 14: Mae gen ti hawl
i feddwl beth fynni di a dilyn
pa grefydd bynnag rwyd ti
eisiau.**

**Erthygl 15: Mae gen ti hawl
i wneud ffrindiau.**

**Detholiad o erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar
Hawliau'r Plentyn**

- Torrwch yn ddau gerdyn i'r dysgwyr eu dal.

Erthygl 17: Mae gen ti hawl i gasglu gwybodaeth o'r radio, papurau newydd, y teledu, llyfrau, ac yn blaen, o unrhyw le yn y byd.

Erthygl 19: Ddylai neb dy frifo mewn unrhyw ffordd.

**Detholiad o erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar
Hawliau'r Plentyn**

- Torrwch yn ddau gerdyn i'r dysgwyr eu dal.

**Erthygl 24: Mae gen ti hawl
i iechyd da.**

**Erthygl 27: Mae gen ti hawl
i fwyd, dillad, a lle i fyw.**

**Detholiad o erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar
Hawliau'r Plentyn**

- Torrwch yn ddau gerdyn i'r dysgwyr eu dal.

**Erthygl 28: Mae gen ti hawl
i addysg.**

**Erthygl 30: Mae gen ti hawl
i fwynhau dy ddiwylliant dy
hun, dilyn dy grefydd dy hun
a defnyddio dy iaith dy hun.**

**Detholiad o erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar
Hawliau'r Plentyn**

- Torrwch yn ddau gerdyn i'r dysgwyr eu dal.

**Erthygl 31: Mae gen ti hawl
i chwarae.**

**Erthygl 37: Ddylet ti ddim
cael dy roi yn y carchar.**

**Detholiad o erthyglau o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar
Hawliau'r Plentyn**

Erthygl 3: Dylai oedolion wneud yr hyn sydd orau i ti.
Erthygl 6: Mae gen ti hawl i fyw.
Erthygl 14: Mae gen ti hawl i feddwl beth fynni di a dilyn pa grefydd bynnag rwyd ti eisiau.
Erthygl 15: Mae gen ti hawl i wneud ffrindiau.
Erthygl 17: Mae gen ti hawl i gasglu gwybodaeth o'r radio, papurau newydd, y teledu, llyfrau, ac yn blaen, o unrhyw le yn y byd.
Erthygl 19: Ddylai neb dy frifo mewn unrhyw ffordd.
Erthygl 24: Mae gen ti hawl i iechyd da.
Erthygl 27: Mae gen ti hawl i fwyd, dillad, a lle i fyw.
Erthygl 28: Mae gen ti hawl i addysg.
Erthygl 30: Mae gen ti hawl i fwynhau dy ddiwylliant dy hun, dilyn dy grefydd dy hun a defnyddio dy iaith dy hun.
Erthygl 31: Mae gen ti hawl i chwarae.
Erthygl 37: Ddylet ti ddim cael dy roi yn y carchar.

